**Ymchwiliad Covid-19 y DU**
**Polisi cyfathrebu hygyrch**

## Cyflwyniad

1. Effeithiodd pandemig Covid-19 ar bawb ledled y DU. Fel ymchwiliad cyhoeddus, rydym am i bawb gael y cyfle i glywed am waith yr Ymchwiliad, cael mynediad at wrandawiadau cyhoeddus a chymryd rhan yn Mae Pob Stori o Bwys os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2. Dywed Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad y byddwn yn: “ystyried unrhyw wahaniaethau sy’n amlwg yn effaith y pandemig ar wahanol gategorïau o bobl, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai sy’n ymwneud â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chategorïau cydraddoldeb o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998”.
   2.1. Nid yw’r Ymchwiliad yn awdurdod cyhoeddus felly nid yw’n ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gynhwysir yn y Ddeddf yn yr un modd ag y mae adran o’r llywodraeth. Fodd bynnag, mae’n gorff sy’n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, felly mae’r polisi hwn wedi’i ysgrifennu gan roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Mae hyn wedi golygu bod yr Ymchwiliad wedi estyn allan a gweithio gyda sefydliadau niferus sy'n cynrychioli poblogaeth amrywiol y DU, i lywio'r polisi hwn.

3. Mae’r polisi hwn yn nodi ein hymagwedd arfaethedig at gyfathrebu hygyrch, gan ganolbwyntio’n benodol ar:
   - siaradwyr Cymraeg
   - bobl sy’n siarad ychydig/dim Cymraeg neu Saesneg
   - bobl anabl sy'n gofyn am fformatau hygyrch.

4. Rydym wedi blaenoriaethu'r grwpiau hyn oherwydd eu bod yn debygol o wynebu rhwystrau cyfathrebu a chyfranogiad. Byddwn yn parhau i archwilio ffactorau eraill ac yn ychwanegu at y polisi hwn, a bydd yn cael ei adolygu’n rheolaidd ochr yn ochr â pholisi cydraddoldebau yr Ymchwiliad.

5. Rydym wedi siarad â sefydliadau cenedlaethol a DU gyfan sy’n cynrychioli safbwyntiau pobl anabl a/neu bobl nad ydynt yn hyfedr yn y Saesneg/y Gymraeg. Mae eu cymorth wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth lunio ein hymagwedd.

6. Byddwn yn parhau i fonitro mewnwelediad cynulleidfaoedd i ddeall os oes unrhyw ofynion hygyrchedd ychwanegol gan ein cynulleidfaoedd trwy

ddangosfyrddau, ymarferion gwersi a ddysgwyd a fforymau ymgysylltu, i’n galluogi i gynllunio’n effeithiol.

## Gwrandawiadau cyfreithiol ac adroddiadau

### Cymraeg

7. Yn y mwyafrif helaeth o achosion byddwn yn lansio pob modiwl â gwybodaeth yn y Gymraeg (erthygl newyddion, cwmpas y modiwl a negeseuon cyfryngau cymdeithasol). Gan fod y Gymraeg yn iaith genedlaethol yn y DU, byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu cyfieithiadau o ansawdd uchel. Byddwn yn cyhoeddi'r deunyddiau hyn ar yr un pryd â fersiynau Saesneg lle bynnag y bo modd.

8. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, byddwn yn cyhoeddi crynodeb gweithredol adroddiadau yn Gymraeg ar yr un pryd â fersiynau Saesneg. Byddwn yn hyrwyddo’r adroddiadau hyn â deunyddiau iaith Gymraeg (er enghraifft postiadau cyfryngau cymdeithasol) ac yn gweithio gyda sefydliadau i hyrwyddo’r adroddiadau a’r argymhellion yng Nghymru.

### Modiwl 2B: Gwneud penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd yng Nghymru

9. Mae Modiwl 2B yn ymwneud â gwneud penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd yng Nghymru. Byd yr adroddiad llawn ar gyfer holl argymhellion Modiwl 2 yn cael eu cyhoeddi yn y Saesneg a, fel yn achos adroddiadau modiwlau eraill, byddant yn cael eu cyfieithu â pheiriant i'r Gymraeg ac ar gael ym fformat HTML ar ein gwefan. Byddwn yn sicrhau bod deunyddiau cyfathrebiadau ar gyfer modiwl 2B ar gael mewn Cymraeg wedi'i gyfieithu'n broffesiynol (er enghraifft y grynodeb Yn Gryno, datganiadau i'r wasg, postaiadu cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau coffaol fel y ffilm effaith ddynol).

10. Roedd y gwrandawiadau ar gyfer M2B wedi'u lleoli yng Nghymru. Pe bai tyst yn nodi yr hoffai roi tystiolaeth yn Gymraeg, byddai cyfieithydd yn cael ei drefnu cyn y gwrandawiadau. Roedd yn rhaid gwneud ceisiadau bythefnos o flaen llaw. Roedd y dehongliad ar yr un pryd i leihau unrhyw darfu posibl ar amseriadau yn ystod y gwrandawiadau.

11. Roedd cyfieithu ar y pryd yn y Saesneg a'r Gymraeg ar gael yn y ganolfan wrandawiadau ac ar ddwy ffrwd fyw ar wahân (un yn y Saesneg ac un yn y

Gymraeg). Roedd gan y ffrydiau byw gapsiynau awtomataidd a allai fod wedi bod yn anghywir.

### Pobl nad ydynt yn hyfedr yn y Saesneg/y Gymraeg

12. Mewn amgylchiadau eithriadol, byddwn yn ystyried ceisiadau i dystion roi tystiolaeth mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Mae'n rhaid gwneud unrhyw geisiadau o leiaf bythefnos cyn dyddiad y gwrandawiad.

13. Bydd yn anodd i lawer o bobl nad ydynt yn hyfedr yn y Saesneg neu'r Gymraeg ddilyn y gwrandawiadau.

14. Er mwyn gwella mynediad, rydym wedi gosod teclyn cyfieithu ar ein gwefan i alluogi unigolion i gyfieithu deunydd i amrywiaeth o ieithoedd gwahanol (argymhellodd sefydliadau 10-15 o ieithoedd yn seiliedig ar angen, yn hytrach na chyffredinolrwydd). Byddwch yn ymwybodol fod cyfieithiadau yn cael eu cynhyrchu yn awtomatig. Ni all yr Ymchwiliad fod yn gyfrifol am unrhyw anghywirdebau neu unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r cyfieithiadau hyn.

15. Dim ond tudalennau gwe y gall y teclyn eu cyfieithu ac nid yw'n gweithio ar ddogfennau. Bydd unigolion yn gallu defnyddio'r teclyn i ddarllen disgrifiadau o bob dogfen a gallant ofyn am gyfieithiadau. Byddwn yn ymdrin â'r ceisiadau hyn fesul achos.

16. Byddwn yn gwrthod ceisiadau os credwn eu bod yn ddiangen, yn anghymesur neu'n cynrychioli gwerth gwael am arian trethdalwyr. Er enghraifft, os yw unigolyn yn gallu siarad/ysgrifennu Saesneg i safon dda neu os bydd rhywun yn gofyn i'r wefan gyfan gael ei chyfieithu ar gyfer prosiect ysgol. Byddwn yn gwrthod ceisiadau i gyfieithu tystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno i'r Ymchwiliad gan drydydd partïon er mwyn osgoi camgyfieithu/camddehongli unrhyw destun.

### Pobl sy'n gofyn am fformatau hygyrch

17. Rydym yn cydnabod bod gan bobl anghenion cyfathrebu gwahanol ac nid oes un ateb i bawb. Byddwn yn anelu at fod yn rhagweithiol wrth nodi rhwystrau cyfathrebu ac yn cymryd camau ymarferol a chymesur i'w dileu/goresgyn.

18. Byddwn yn gweithio gyda phob tyst i sicrhau eu bod yn barod i roi tystiolaeth. Os yw'n briodol, byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol. Er enghraifft, os oes angen cyfieithydd iaith arwyddion neu weithiwr cymorth arnynt i roi

tystiolaeth. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, dywedwch wrthym o leiaf dair wythnos ymlaen llaw.

19. Mae gwrandawiadau'r Ymchwiliad yn cael eu ffrydio ar YouTube, yn amodol ar oedi o dri munud. Gall defnyddwyr droi capsiynau awtomataidd ymlaen ar gyfer pob gwrandawiad cyhoeddus. Byddwch yn ymwybodol fod capsiynau yn awtomataidd a gallant gynnwys anghywirdebau. Rydym yn cyhoeddi trawsgrifiad ar ddiwedd pob diwrnod gwrandawiad - dylech gyfeirio at y trawsgrifiad i gael cofnod cywir o'r trafodion.

20. Bydd Cyfranogwyr Craidd (CC) yn parhau i gael mynediad at drawsgrifiad byw o'r trafodion.

21. Gall pobl sy'n dymuno dod â chyfieithydd i wrandawiad eistedd yn yr ystafell wylio a byddant yn cael eu hystyried fesul achos.

22. Byddwn yn ystyried hygyrchedd pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ac adroddiadau. Byddwn yn:

- profi i sicrhau bod y wefan yn gweithio gyda gwahanol ddarllenwyr sgrîn a phorwyr, gan gynnwys deall os yw'r wefan yn diystyru neu'n cyd-fynd â gosodiadau personol
- profi a gwella ymarferoldeb llywio a chwilio, er enghraifft sicrhau bod cynnwys yn cael ei grwpio neu ei dagio fel bod rhywun yn gallu cyrchu'r holl ddogfennau Hawdd ei Ddarllen mewn un lle; sicrhau bod ffrydiau byw yn cael eu harchifo/chwilio fel y gall pobl ddod o hyd i eitemau penodol
- adolygu sut mae'r ffrydiau byw yn ymddangos ar ein gwefan i sicrhau y gellir cael mynediad atynt, eu chwilio a'u hadalw'n gyflym
- postio adroddiadau fel PDFau hygyrch ac mewn HTML
- cyhoeddi crynodebau o adroddiadau mewn Cymraeg a gyfieithwyd yn broffesiynol, Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd ei Ddarllen
- Bydd crynodebau HTML o adroddiadau yn cael eu cyfieithu â pheiriant yn awtomatig i'r holl ieithoedd eraill sydd eisoes ar gael ar ein gwefan
- gweithio gyda phobl/sefydliadau lle mae'n briodol i annog cynulleidfaoedd amrywiol i ymgysylltu â gwaith yr Ymchwiliad a hyrwyddo argaeledd fformatau hygyrch
- creu cynnwys cyfryngau cymdeithasol hygyrch, er enghraifft ychwanegu testun amgen at ddelweddau oni bai eu bod yn addurnol
- defnyddio iaith a delweddaeth gynhwysol yn ein cyfathrebiadau
- darparu hyfforddiant rheolaidd fel y gall tîm yr Ymchwiliad barhau i ddysgu am faterion amrywiaeth, cynhwysiad a hygyrchedd
- adolygu adborth am faterion amrywiaeth, cynhwysiad a hygyrchedd, ac ystyried gwelliannau y gellir eu gwneud.

23. Os oes eisiau gwybodaeth ar unigolyn/sefydliad mewn fformat hygyrch, gallant gysylltu â'r Ymholiad gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir yn yr adran Gohebiaeth tua diwedd y ddogfen hon. Byddwn yn ystyried pob cais gan gynnwys os yw'r wybodaeth eisoes ar gael ac amser/costau cynhyrchu dewis arall. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn gwrthod cais ond byddwn yn ceisio cynnig dewis arall addas. Er enghraifft, os bydd rhywun yn gofyn am drawsgrifiad mewn ffont mawr, byddwn yn esbonio sut y gallant ddefnyddio'r offeryn hygyrchedd i ehangu'r testun.

## Mae Pob Stori o Bwys

24. Mae Pob Stori o Bwys yn gyfle i'r cyhoedd helpu Ymchwiliad Covid-19 y DU i ddeall eu profiad o'r pandemig. Bydd Mae Pob Stori o Bwys yno i chi rannu eich stori hyd 23 Mai 2025.

25. Gall unigolion lenwi'r ffurflen Mae Pob Stori o Bwys mewn amrywiaeth eang o ieithoedd (10 ar gael ar-lein) ac mewn fformat Hawdd i'w Ddarllen. Mae fideo BSL yn egluro beth yw Mae Pob Stori o Bwys, hefyd ar gael ar wefan Mae Pob Stori o Bwys gydag isdeitlau Saesneg. Gall cyfranogwyr hefyd ofyn am esboniad Braille a chanllaw i'w gwblhau trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

26. Bydd digwyddiadau personol yn cael eu cynnal ledled y DU. Ar ôl ymgynghori â sefydliadau arbenigol, byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau ar-lein wedi'u targedu gyda gwahanol grwpiau, megis pobl anabl a'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol.

27. Fel rhan o'r broses cynllunio ar gyfer digwyddiadau, byddwn yn gofyn i bobl am eu hygyrchedd a'u gofynion iaith cyn iddynt fynychu, a lle bo modd byddwn yn darparu addasiadau rhesymol. Ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb, byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod lleoliadau mor hygyrch â phosibl, a byddwn yn darparu gwybodaeth hygyrchedd i fynychwyr cyn y digwyddiad.

## Gohebiaeth

28. Gall y cyhoedd a sefydliadau gysylltu â'r Ymchwiliad trwy ein cyfeiriad Rhadbost (RHADBOST, Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU) a thrwy ein cyfeiriad e-bost cyswllt (contact@covid19.public-inquiry.uk). Mae'r pwyntiau cyswllt hyn yn agored i unrhyw un a byddwn yn derbyn amrediad o ymholiadau, barn a chyflwyniadau amrywiol y mae gohebwyr yn dymuno eu trin fel tystiolaeth.

29. Os byddwn yn derbyn gohebiaeth mewn iaith heblaw'r Saesneg, byddwn yn ymdrechu i ymateb yn yr iaith honno. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o arian trethdalwyr, gellir cynhyrchu'r ymateb hwn gan ddefnyddio technoleg cyfieithu peirianyddol am ddim. Mae hyn yn golygu y gall fod rhai gwallau yn y cyfieithiad. Ni all yr Ymchwiliad fod yn gyfrifol am unrhyw anghywirdebau neu unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r cyfieithiadau hyn.

### Sut y byddwn yn monitro ac yn gorfodi'r polisi hwn

30. Bydd yr Ymchwiliad yn adolygu'r polisi hwn bob chwe mis i sicrhau ei fod yn cynnwys y pwyntiau allweddol. Byddwn yn ystyried unrhyw adborth am faterion amrywiaeth, cynhwysiad a hygyrchedd a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddaru'r polisi pan mae'n briodol. Bydd themâu allweddol hefyd yn cael eu rhannu ag uwch dîm arwain yr Ymchwiliad.

31. Diweddarwyd y polisi hwn ddiwethaf ym Mawrth 2025.

### Manylion cyswllt

32. Os hoffech wneud cais am gyfieithiad neu fformat arall (fel PDF hygyrch, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, recordiad sain neu braille), e-bostiwch contact@covid19.public-inquiry.uk.

Byddwn yn ystyried eich cais ac yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.